



# Capel y Traeth ar Waith

[www.capelytraeth.com](http://www.capelytraeth.com)

Rhif 83

Ionawr 2018

07	Parch R.E. Hughes	Mrs Cheryl Jones
14	Mr Glyn Owen	Mrs Mair Hughes
21	Parch Iwan Ll. Jones	Mrs Helen Wright
28	Sul Aelodau	Mrs Gwenno Parry

- 09 Cylch Trafod – ‘Ein Cread Ni’? dan arweiniad Ariel Evans 10.30  
09 Cyfarfod y Merched yn y Festri 1.30  
16 Cymdeithas Ddiwylliadol yn y Festri am 7.15  
Elfed Gruffydd –‘Ffynhonnau’

Llywydd y mis: Aled Rees

Glanhau: Eira a James

Ymweld: Catrin Codd a Glenys Owen

Croesawu: Capel y Traeth



## Derbyn yn Aelod

Pleser oedd cael derbyn Manon Shakespere, Penaber yn aelod llawn o'r Eglwys yn ystod Gwasanaeth Nadolig y bobl ifanc yn ddiweddar. Mae Manon yn un o famau gweithgar y Clwb Sul ac yn fam i Ifan a Dylan a'r tri yn hynod ffyddlon i holl weithgareddau'r Eglwys. Croeso cynnes iawn iti Manon a gobeithio y byddi di a'r teulu yn parhau i fwynhau y croeso cynnes sydd i'w gael yn y Traeth.

*Blwyddyn Newydd Dda a dedwydd i chwiri oll*



**Noson i Ddathlu'r Nadolig** Er gwaethaf y tywydd oer a gwlyb roedd y croeso yn y festri mor gynnes ag erioed a phawb yn edrych ymlaen at noson o ddathlu gwir ystyr y Nadolig. Pleser hefyd oedd gweld rhieni'r Clwb Sul yn rhan o'r dathlu. Roedd darlenniadau amserol wedi eu paratoi gan Wendy Rees ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi hi am ofalu am hyn eto eleni ac am arwain y noson. Diolch yn arbennig i Mrs Buddug Lloyd Roberts a Hugh Gwynne am ddewis y carolau ac am hyfforddi'r côr .



## Y BWLI BEN!

Oeddech chi yno i weld y sioe? Mae'n siwr eich bod chi achos `roedd y festri'n orlawn a dim sedd wag ar yr un o'r cadeiriau na'r meinciau. Ac mi gawsom ni SIOE. Oedd, `roedd hon yn sioe wahanol ond `roedd y cyfan yn fwrlwm o hwyl ac afiaith. Fe gawsom ein cyflwyno i'r Bwli Ben ar y dechrau a, wir i chi, mi oedd o yn dipyn o fwli yn ei ddu a'i gap stydiog (Pwy feddyliai mai'r



hoffus Gatrin Glwys oedd tu ôl i'r cymeriad cas yma!) Rhai annwyl iawn a hoffus oedd ei rieni amyneddgar, Cadi ac Anna a fu dim angen `prompt' ar yr un ohonyn nhw er yr holl waith dysgu geiriau. 'Roedd yn amhosib' peidio dotio ar yr angylion yng ngofal Nani'r Nefoedd (Mari) rhai prin dros eu dwyflwydd ond yn amlwg wrth eu bodd yn canu'r caneuon newydd. Fe welsom helyntion y 'Bwli Ben o Bethlehem' yn yr ysgol a'i athro urddasol (Maelgwn) yn dod i ben ei dennyn, wedyn yn y gwesty ble 'oedd yr ymwelwyr ar frys i adael ar ôl cael llond bol o'i antics a hyd yn oed ei ffrindiau ysgol (Efa, Elin ac Annest) yn y diwedd yn troi cefn arno. Beth ar y ddaear wnaen nhw â'r Bwli Ben? Wel, 'roedd plant y Clwb Sul yn gwybod yn iawn ble i droi am

help ac yn sŵn y gân "Arglwydd Dduw, O clyw ein cri ....." fe ddaeth yr ateb -

'Roedd Mair a Joseff (Lois ac Euros) newydd weld geni baban bach sbeshial iawn ac mae'n rhaid ei fod o'n arbennig iawn achos dim ond edrych yn llygaid y baban bach yma wnaeth Ben ac 'fe doddodd' ac fe drodd y Bwli Ben yn Bendigedig! Fe gynhesom

ninnau fel cynulleidfya wrth weld y bugeiliaid, y doethion a hyd yn oed filwyr Rhufain yn nesu at y crud a geiriau'r gân yn cael eu hamenio bod "...pawb o dy gwmpas yn wên i gyd".

Gwenu hefyd oedd pawb wrth adael y festri, pawb wedi dotio at waith y plant, at ddyfeisgarwch Anti Elin a'i chriw, cyfieithiad Grey Evans (a'r jôcs 'Cnoc cnoc') a chaneuon Gwyneth Glyn. Oedd wir, 'roedd hi yn dda bod yno.

*Eirwen Llwyd Jones*

**Diolch i'n bobl ifanc** Yn dilyn drama Nadolig y plant fore sul 10 Rhagfyr cawsom Wasanaeth byr yn y capel a phleser o'r mwyaf oedd gweld rhai o'r bobl ifanc a fu'n aelodau o'r Clwb Sul yn cynnal y Gwasanaeth yma. Diolch yn fawr iawn i bob un ohonoch ac i Mr Dewi Jones am drefnu'r Gwasanaeth.



**Cofion** Mae'r Cylchlythyr yma yn eich cyrraedd braidd yn fuan ond oherwydd gwyliau'r Nadolig roedd yn rhaid ei gael i'r argraffdy cyn iddynt gau am y Nadolig.

Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch gan fawr obeithio y cewch Nadolig dedwydd yng nghwmni ffrindiau a theulu.

Gyda thristwch y clywsom ddechrau mis Rhagfyr am farw Mr. John Davies Hughes, Penaber. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei briod, Nel a'r meibion David a Michael a'r teulu i gyd. Yn ystod y Gwasanaeth yng Nghapel y Traeth talodd Michael a David deyrnged i'w Tad ac fe fydd y ffordd urddasol y gwnaethant hyn yn aros yn y cof am beth amser.

Mae nifer wedi bod yn cwyno'n ddiweddar ac rydym yn gobeithio eich bod yn gwella erbyn hyn.

**Bore Coffi** Diolch o galon i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd at y Bore Coffi ddechrau Rhagfyr. Mae'n braf cael dweud ein bod wedi llwyddo i godi £436 tuag at brynu cadeiriau i'r ystafell aros yn y Ganolfan Iechyd.

**Cylch Trafod** Bydd y cyfarfod nesaf fore Mawrth, 9 Ionawr am 10.30 yn y Ffestri. Mr Ariel Evans fydd yn arwain a'r pwnc trafod fydd - *Ein Cread ni ?* Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni yn y flwyddyn newydd.

**Diolch** Diolch o galon i bawb a gyfrannodd mor hael at lenwi sach Siôn Corn. Roedd gweld wynebau'r plantos wrth iddynt agor eu hanrhegion yn gwneud i un sylweddoli mor ffodus ydym fel Eglwys o gael llong llwyfan o blant bach yn llawn cynnwrf yn aros am eu hanrheg. Diolch yn fawr iawn i chi gyd ac i Sion Corn wrth gwrs!

**Apêl y Philipinas** Cymorth Cristnogol. Pleser yw cael dweud ein bod wedi codi £1000 at yr apêl yma yn ystod y flwyddyn. Diolch i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at yr achos teilwng yma.

